Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 27 - 31 Gorffennaf 2015
Dyddiad yr ymweliad dilynol cyntaf: 8 - 9 Gorffennaf 2019

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 5 – 6 Rhagfyr 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.22 Dylai'r awdurdod (i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Hylendid a Safonau Bwyd y dyfodol yn unol â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid cynnwys costau darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, ynghyd ag amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Glas | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn nodi manylion mewn perthynas â chostau gweithredu'r gwasanaeth ac archwilio'r duedd o dwf neu ostyngiad mewn termau real yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.<br><br>Sicrhau bod y ffigurau sy'n ymwneud â chyfanswm nifer yr ymyriadau hylendid bwyd i'w cyflawni yn gywir a bod nifer yr ymyriadau safonau bwyd i'w cyflawni yn amlwg yn cynnwys unrhyw ymyriadau a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol. Darparu amcangyfrifon ar gyfer busnesau newydd sydd angen arolygiadau hylendid a safonau bwyd.<br><br>Cynnwys, yn yr asesiad o adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael, ddadansoddiad ar draws | Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am gostau gwasanaeth, dadansoddiad o dueddiadau'r gyllideb, ffigurau ymyriadau cywir, nodi ymyriadau a gariwyd drosodd a datganiad yn nodi bod adnoddau digonol ar gael. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | gweithgareddau cyflenwi gwasanaeth, a gwahaniaethu rhwng nifer y staff cymwysedig a nifer y staff cymorth. | | |
| 3.22 (ii) Cynnal a chofnodi adolygiadau perfformiad o wasanaethau hylendid a safonau bwyd, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth, a chyflwyno'r rhain i'w cymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol perthnasol neu fforwm aelodau perthnasol, fel sy'n briodol. [Y Safon – 3.2] | Glas | Sicrhau bod adolygiadau'r dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y blynyddoedd a fu yn erbyn y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau perfformiad, safonau a chanlyniadau a nodwyd. | Roedd yr adolygiad yn erbyn gwasanaeth y flwyddyn flaenorol yn cynnwys asesiadau yn erbyn yr holl dargedau, safonau a chanlyniadau perthnasol. | Cwblhawyd. |
| 3.22 (iii) Sicrhau yr eir i'r afael â'r holl amrywiadau mewn cynlluniau gwasanaeth safonau bwyd dilynol. [Y Safon – 3.3] | Glas | Sicrhau bod yr holl amrywiadau'n cael eu nodi a'u hegluro yn ystod yr adolygiad cyflenwi gwasanaeth blynyddol gan gynnwys y rhai hynny mewn perthynas ag ymyriadau safonau bwyd a raglennwyd sy'n hwyr a sefydliadau heb eu sgorio. | Nodwyd ac esboniwyd amrywiadau. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau yr eir i'r afael â'r rhain (lle bo angen) fel meysydd i'w gwella. | | |
| 4.6 Dylai'r awdurdod (i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u cofnodi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y mae newidiadau i ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.11 Dylai'r awdurdod (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd yn seiliedig ar eu cymhwysedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau | Glas | Sicrhau bod yr asesiadau cymhwysedd yn cael eu dogfennu. | Roedd asesiadau cymhwysedd ar gael ar gyfer pob swyddog safonau bwyd. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 5.1] | | | | |
| 5.11 (ii) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu dyrannu i gynnal rheolaethau swyddogol safonau bwyd. [Y Safon – 5.3] | Glas | Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth yn nodi gwahaniaeth rhwng nifer y swyddogion proffesiynol llawn amser o'i gymharu ag amcangyfrif nifer y swyddogion llawn amser sy'n ofynnol.<br><br>Nid oes digon o ymyriadau safonau bwyd â sgôr a heb eu sgorio wedi'u cwblhau yn unol â'r amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i ddarparu rheolaethau swyddogol safonau bwyd. | Roedd y cynllun gwasanaeth yn nodi bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer safonau bwyd, a dangoswyd hyn wrth gyflawni'r gweithgareddau gwaith. | Cwblhawyd. |
| 5.11 (ii) Sicrhau bod pob swyddog hylendid bwyd awdurdodedig yn derbyn y lefel ofynnol o hyfforddiant datblygiad | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| proffesiynol parhaus, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.4] | | | | |
| 5.11 (iv) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau perthnasol eraill pob swyddog awdurdodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 6.7 Dylai'r awdurdod (i) Sicrhau y caiff offer ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi yn gywir, ac na chaiff ei ddefnyddio unwaith y canfyddir ei fod yn ddiffygiol. I gefnogi'r dasg hon, dylid sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn gofnodedig, a ddylai gynnwys mesur i adnabod offer, tystiolaeth o gynnal a chadw a graddnodi, a chanlyniadau unrhyw | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| wiriadau wrth iddynt gael eu defnyddio. [Y Safon – 6.2] | | | | |
| **<u>Hylendid Bwyd</u>**<br><br>7.29 Dylai'r awdurdod<br><br>(i) Sicrhau bod ymyriadau / arolygiadau mewn sefydliadau bwyd yn cael eu cynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod yr holl sefydliadau perthnasol yn cael eu cynnwys yn y rhaglen arolygu fel eu bod yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad bach o ymyriadau hylendid bwyd y mae angen eu cynnal o hyd mewn safleoedd sy'n dangos bod yr awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran adferiad a'i fod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. | Sicrhau bod yr holl ymyriadau priodol ac ymyriadau sefydliadau heb sgôr yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| 7.29 (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a | Glas | Sicrhau bod ailymweliadau yn cael eu cynnal yn gyson mewn modd amserol yn unol â gweithdrefnau. | Lle'r oedd hynny'n berthnasol, cynhaliwyd ailymweliadau mewn | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | | Sicrhau bod y rhesymau dros ddiwygio sgoriau risg safleoedd cymeradwy yn cael eu dogfennu. | modd amserol yn unol â'r gweithdrefnau.<br><br>Nid oedd yn berthnasol adolygu sgoriau risg safleoedd cymeradwy. | |
| 7.29 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio sy'n cael ei ddarganfod, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Glas | Sicrhau bod trafodaethau gyda sefydliadau sy'n trin bwyd yn cael eu dogfennu yn gyson a bod asesiadau o hyfforddiant hylendid yn y sefydliadau hynny yn cael eu cynnal yn gyson yn ogystal ag asesiadau o farciau iechyd / adnabod ar gyfer bwydydd sy'n dod i mewn a bwydydd a fewnforir.<br><br>Sicrhau bod camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd yn gyson mewn perthynas â chanfyddiadau ymyriadau. | Roedd trafodaethau gyda'r rhai sy'n trin bwyd, hyfforddiant hylendid bwyd, marciau iechyd / adnabod ac ystyriaeth o fwydydd wedi'u mewnforio wedi'u cofnodi ym mhob achos.<br>Lle bo'n berthnasol, cymerwyd camau gorfodi priodol. | Cwblhawyd. |
| 7.29 (iv) Sefydlu a chyflwyno gweithdrefnau ar gyfer yr ystod lawn o | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| ymyriadau/arolygiadau a gynhelir, gan gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen. Diwygio a gweithredu ei weithdrefnau mewn perthynas ag arolygu sefydliadau bwyd ac ailymweld â nhw. [Y Safon – 7.4] | | | | |
| 7.29 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Safonau Bwyd**<br><br>7.45 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na'r hyn a bennir o dan y cynllun sgorio | Glas | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg ganolig, risg isel a rhai heb eu sgorio yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Mae'r gwasanaeth safonau bwyd wedi adfer yn ddigonol i gyd-fynd yn fras â gofynion y Cod. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | | | |
| 7.45 (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau, gan gynnwys Strategaethau Gorfodi Amgen (AES), yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod busnesau a ddewisir ar gyfer Strategaeth Gorfodi Amgen yn gymwys ac nad yw sgoriau risg yn cael eu newid yn dilyn yr ymyriad. | Roedd pob busnes a ddewiswyd yn gymwys ar gyfer AES ac ni chafodd sgoriau risg eu newid. | Cwblhawyd. |
| 7.45 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol a chymryd camau priodol ar unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol â'i bolisi gorfodi. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 7.45 (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod lawn o ymyriadau a gynhelir ganddo. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.45 (v) Sicrhau y caiff arsylwadau a wneir yn ystod arolygiad eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.8 Dylai'r awdurdod (i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn gofnodedig mewn perthynas â chwynion hylendid bwyd, a diwygio'r weithdrefn Cwynion ac Ymholiadau Safonau Masnach i nodi ei ddull o ymchwilio i gwynion, gan | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| gynnwys y rheiny mewn perthynas â bwyd o wledydd eraill. [Y Safon – 8.1] | | | | |
| 8.8 (ii) Sicrhau yr ymchwilir yn drylwyr i bob cwyn mewn perthynas â materion hylendid bwyd, a bod hynny'n digwydd mewn modd amserol. [Y Safon – 8.2] | Glas | Sicrhau yr ymchwilir yn drylwyr i bob cwyn mewn perthynas â materion hylendid bwyd a bod hynny'n digwydd mewn modd amserol gan ddod i gasgliad boddhaol. | Ymchwiliwyd yn drylwyr i bob cwyn yn ymwneud â hylendid bwyd, a hynny mewn modd amserol, a daethpwyd i gasgliad boddhaol. | Cwblhawyd. |
| 11.3 Dylai'r awdurdod (i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau cofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data hylendid bwyd a safonau bwyd yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 12.13 Dylai'r awdurdod (i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno polisi a rhaglen samplu safonau bwyd sy'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac sy'n cyfeirio at ei ddull gweithredu mewn perthynas â rhaglenni samplu cenedlaethol. Diwygio'r Polisi Samplu Bwyd Microbiolegol i gyfeirio at y Prif Awdurdod a'i ddull o samplu tu allan i oriau swyddfa [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 12.13 (ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn ar gyfer samplu microbiolegol a diwygio'r weithdrefn samplu safonau bwyd i gynnwys gwybodaeth am drefniadau caffael a phrynu samplau, cysondeb tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio dan ei reolaeth. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 13.9 Dylai'r awdurdod (i) Ddiwygio'r Cynllun Rheoli Achosion i sicrhau ei fod yn cynnwys cysylltiadau perthnasol lleol a chyfredol. [Y Safon – 13.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 13.9 (ii) Sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus ei rhoi ar waith | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| ym mhob achos. Yn benodol, cynnal ymchwiliadau trylwyr gan gynnwys p'un a gymerwyd camau i gael gwared ar ffactorau datgelu a nodwyd mewn sefydliadau bwyd yr effeithiwyd arnynt; yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a pholisi gorfodi'r awdurdod. [Y Safon - 13.2] | | | | |
| 13.9 (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion mewn perthynas â rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 14.5 Dylai'r awdurdod (i) Sefydlu a chynnal gweithdrefnau gwasanaeth hylendid | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| bwyd, a datblygu'r weithdrefn safonau bwyd gofnodedig ymhellach ar gyfer cyhoeddi ac ymateb i rybuddion bwyd, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys trefniadau cysylltu tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1 a 14.4] | | | | |
| 15.7 (i) Dylai'r awdurdod adolygu a diwygio'r ddau bolisi gorfodi i gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi bwyd sydd ar gael | Glas | Sicrhau bod y polisi gorfodi yn cynnwys meini prawf ar gyfer pob un o'r dewisiadau gorfodi bwyd. Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu meini prawf yn y gweithdrefnau gorfodi bwyd fel | Mae'r Polisi Gorfodi a Chydymffurfiaeth (Mawrth 2023) wedi'i ddiwygio i gyfeirio at yr un meini prawf ar gyfer cyflwyno | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol a sicrhau bod y polisïau'n cael eu cymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol a'u gweithredu'n llawn. [Y Safon – 15.1] | | atodiad i'r Polisi Gorfodi a Chydymffurfio â Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd. Polisi Gorfodi a Chydymffurfiaeth. | hysbysiadau fel y'u hamlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer. | |
| 15.7 (ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau gorfodi ar gyfer camau dilynol a gorfodi yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau swyddogol | Glas | Dylai'r gweithdrefnau a ddatblygwyd ar gyfer hysbysiadau gwella safonau bwyd, hysbysiadau bwyd a fewnforir a gwaith gorfodi mewn sefydliadau cymeradwy gael eu diwygio i gynnwys y dull o ddogfennu | Mae ffurflen templed cofnod gwasanaeth hysbysiad wedi'i chynhyrchu i ddogfennu'r dull a'r prawf cyflwyno. Mae hyn bellach yn | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| perthnasol. [Y Safon - 15.2] | | gwaith gorfodi; gan gynnwys cadw tystiolaeth o wasanaeth.<br><br>Sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu datblygu mewn perthynas â rhybuddion ac erlyniadau syml; i gynnwys y broses ar gyfer llunio ffeiliau achos a chymeradwyo penderfyniadau. | cynnwys yr holl hysbysiadau a oedd yn absennol yn flaenorol.<br><br>Darparwyd diagram llif sgematig sy'n dogfennu'r weithdrefn ar gyfer rhybuddion ac erlyniadau syml. | |
| 15.7 (iii) Sicrhau y caiff camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 15.3] | Glas | Sicrhau bod tystiolaeth o gyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid yn cael ei chofnodi a bod gwiriadau cydymffurfio amserol yn cynnal yn gyson. Sicrhau bod cofnodion cau gwirfoddol yn cynnwys llofnod gweithredwr y busnes sy'n cytuno i beidio â masnachu heb | Roedd prawf gwasanaeth ar gael ar gyfer pob HIN ac roedd gwiriadau amserol ar gydymffurfiaeth wedi'u cynnal. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | gymeradwyaeth. Sicrhau bod caniatâd i ailagor yn cael ei ddogfennu a bod gwiriadau cydymffurfio yn cael eu cofnodi'n gyson.<br>Sicrhau bod penderfyniadau gan y Swyddog Erlyn ar gychwyn achos erlyn neu gynnig Rhybuddiad Syml yn cael eu dogfennu mewn perthynas â chydymffurfio â Pholisi Gorfodi a Chydymffurfiaeth Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gyfer euogfarn yn cael ei hystyried gan y Swyddog Erlyn wrth wneud penderfyniadau ar gynnig Rhybudd Syml. | Llofnodwyd cytundebau Cau Gwirfoddol gan yr FBO i beidio â masnachu heb gymeradwyaeth. Roedd caniatâd i ailagor wedi'i ddogfennu ym mhob achos.<br><br>Penderfyniadau gan y Swyddog Erlyn yn cael eu dogfennu'n gyson ar ôl ystyried tystiolaeth briodol. | |
| 15.7 (iv) Sicrhau y caiff y penderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini | Glas | Sicrhau bod y camau gorfodi a gymerwyd mewn materion yn deillio o arolygiadau hylendid bwyd yn briodol ym mhob achos. Sicrhau bod materion yn cael eu huwchgyfeirio er mwyn dod i benderfyniad ar erlyniad neu Rybudd Syml gan y Swyddog Erlyn | Lle y bo'n berthnasol, roedd yn briodol cymryd camau gorfodi mewn materion yn codi o arolygiadau hylendid bwyd. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| prawf a nodir yn y polisi gorfodi. [Y Safon - 15.4] | | ym mhob achos lle bo hyn yn briodol. Dogfennu'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y polisi gorfodi. | Dim gwyro o feini prawf polisi gorfodi. | |
| 16.7 Dylai'r awdurdod (i) Gynnal cofnodion cywir a chyfredol mewn ffurf y gellir ei adfer yn hawdd ar gyfer pob sefydliad bwyd perthnasol yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r | Glas | Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnesau'n cael eu cadw'n gyson, gan gynnwys ym mhob Pwynt Rheoli Critigol (CCP). Sicrhau bod ffurflenni cofrestru safleoedd yn cael eu stampio'n gyson gyda'r dyddiad y dônt i law. Sicrhau bod adroddiadau arolygu yn cael eu hanfon at y cyfeiriad | Roedd elfennau craidd HACCP busnes yn cael eu cadw ym mhob achos. Mae stamp dyddiad ar ffurflenni cofrestru eiddo ym mhob achos. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gan nodi'r rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | cofrestredig a nodi p'un a gymerwyd sampl ai peidio.<br>Lle bo achosion difrifol o dorri rheolau yn cael eu nodi, sicrhau bod y rhesymau dros unrhyw wyriadau oddi wrth weithdrefnau yn cael eu dogfennu.<br>Sicrhau bod crynodeb, rhestrau cynnyrch a chynlluniau galw a thynnu bwyd yn ôl ar gael yn gyson ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy. | Roedd yr holl adroddiadau arolygu wedi'u cyfeirio at y cyfeiriad cofrestredig ac yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a oedd unrhyw samplau wedi'u cymryd ar gael ym mhob achos.<br>Nid oedd unrhyw achosion lle bu unrhyw wyriadau oddi wrth weithdrefnau.<br>Roedd y ffeiliau cymeradwyo yn cynnwys crynodeb busnes a manylion am restrau cynnyrch a chynlluniau galw bwyd yn ôl a thynnu bwyd yn ôl. | |
| 16.11 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sicrhau bod ffurflenni adrodd ar ôl arolygiad safonau bwyd a ddarperir | Glas | Sicrhau bod adroddiadau yn gyson yn cynnwys manylion y swyddog arolygu, manylion | Roedd pob adroddiad yn cynnwys manylion y swyddog arolygu, | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | | cyswllt ar gyfer uwch swyddog ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio. | manylion cyswllt ar gyfer uwch swyddog ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio. | |
| 19.11 Dylai'r awdurdod (i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer safonau bwyd, a diwygio a chyflwyno'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer hylendid bwyd er mwyn adlewyrchu'r ystod lawn o reolaethau swyddogol. [Y Safon – 19.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 19.11 (ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau | Glas | Sicrhau bod y weithdrefn fonitro fewnol ar gyfer hylendid bwyd yn cael ei gweithredu'n llawn ar draws yr ystod lawn o weithgareddau hylendid bwyd. | Roedd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu rhoi ar waith. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ar gyfer y ddau wasanaeth [Y Safon – 19.2]. | | | | |
| 19.11 (iii) Sicrhau y caiff yr holl waith monitro mewnol ei gofnodi, ac y caiff y cofnodion eu cadw am o leiaf ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3] | Glas | Cadw cofnodion o waith monitro mewnol ar draws yr ystod lawn o weithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd am o leiaf ddwy flynedd. | Darparwyd tystiolaeth o weithgareddau monitro mewnol mewn perthynas â gweithgareddau safonau bwyd a hylendid. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaeth yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Cynllun gwasanaeth wedi'i ddiwygio mewn perthynas â'r CSHB. | Cwblhawyd. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â gweithdrefnau. | Glas | | Mae gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r CSHB wedi'u diwygio. | Cwblhawyd. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Roedd adroddiadau arolygu yn cynnwys | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| yn ymwneud ag adroddiadau arolygu. | | | dilysrwydd y CSHB a gwybodaeth apêl. | |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud ag ail-sgorio. | Glas | | Roedd dyddiadau a sgôr ailsgorio arolygiadau yn gyson â gwefan y sgôr hylendid bwyd. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae monitro mewnol yn cwmpasu agweddau perthnasol ar gynllun y CSHB. | Cwblhawyd. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **42** |
| **Cwblhawyd** | **41** |
| **Cynnydd da** | **1** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **0** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **1** |